E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

Adnodd 6

# *Carfanau Pwyso 2: Dulliau Dylanwadu ac Effeithiolrwydd*

## Canllaw i Athrawon

## CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar ddulliau dylanwadu ac effeitholrwydd carfanau pwyso yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 6:<br>Carfanau pwyso 2:<br>Dulliau Dylanwadu** | **2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth**<br>**– Sut mae carfanau pwyso yn dylanwadu: pwyntiau mynediad; dulliau gan gynnwys gweithredu uniongyrchol a lobïo; defnyddio'r cyfryngau; aelodaeth.**<br>**– Ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant carfanau pwyso gydag enghreifftiau.**<br>**– Dadleuon ynghylch p'un a yw carfanau pwyso yn atgyfnerthu democratiaeth neu'n ei gwanhau.** |

Mae cyswllt cryf rhwng Adnodd 5 a 6 gyda sylw yn Adnodd 5 i ddiffinio carfanau pwyso, ymdrin â'r prif ddulliau o gategoreiddio mathau gwahanol o garfanau a'r prif gymariaethau â phleidiau gwleidyddol. Ar sail hyn, mae Adnodd 6 yn rhoi sylw manylach i drafod dulliau gweithredu carfanau pwyso a'r pwyntiau mynediad a ddefnyddir ganddynt. O ran dulliau, rhoddir llai o sylw i ddefnyddio'r cyfryngau a swyddogaeth aelodaeth. Rhoddir mwy o sylw i ddatblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng carfanau pwyso a democratiaeth yn yr ymarferion yn y llawlyfr gwaith.

Bwriad y canllaw i athrawon yw tynnu sylw at rai materion allweddol yn ymwneud â'r pwnc.

### Ble a sut mae carfanau pwyso yn ceisio dylanwadu?

Y mater cyntaf mae'r adnodd yn ceisio'i bwysleisio yw goblygiadau natur amlhaenog grym gwleidyddol i weithrediad carfanau pwyso gan olygu y gallant fod yn ceisio dylanwadu ar nifer o haenau o lywodraeth. Rhoddir ffocws penodol yn yr adnodd ar ddeall sut mae carfanau yn ceisio dylanwadu a'r pwyntiau mynediad a ddefnyddir i gael dylanwad ar y corff gweithredol a'r ddeddfwrfa ar y lefel wladwriaethol a'r lefel is-wladwriaethol yn y DU. Gan fod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd nid yw ymdrechion carfanau pwyso i ddylanwadu ar y lefel honno mor berthnasol bellach, er bod llawer o'r gwerslyfrau wedi cynnwys trafodaeth o hyn.

**Y dulliau a ddefnyddir gan garfanau pwyso**

Cyplysir y drafodaeth ar y dulliau i ddylanwadu a ddefnyddir gan garfanau pwyso â'r gwahaniaethu rhwng carfanau mewnol ac allanol a gyflwynwyd yn Adnodd 5 gan fod cyswllt cryf rhwng y dulliau a'r categoreiddio carfanau yn ôl eu statws. Cysylltir hefyd felly rhwng y dulliau a'r pwyntiau mynediad a ddefnyddir gan garfanau.

Rhoddir sylw penodol i ddiffinio lobïo gwleidyddol a deall y mathau o weithredu uniongyrchol all carfanau pwyso eu defnyddio. Tra bod y wybodaeth graidd yn cyflwyno gweithredu uniongyrchol ar gontinwwm o weithredu heddychlon i weithredu treisgar, model arall yw'r deipoleg o weithredu uniongyrchol isod sy'n amlinellu beth yw statws y math o weithredu yn ôl y gyfraith a'r nodau cysylltiedig.

## Teipoleg Gweithredu Uniongyrchol

(addasiad o dabl gan Wyn Grant, 2000)

| FFORDD O WEITHREDU | CYFREITHLONDEB | PRIF NODAU |
|---|---|---|
| Gorymdeithiau Protest | Cyfreithlon fel Arfer | Dangos i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gryfder y temladau a'r consyrn ynghylch mater arbennig |
| Boicot | Cyfreithlon | Achosi niwed masnachol i gwmni |
| Styntiau | Gallant fod rhywfaint yn anghyfreithlon | Gorfodi ffocysu ar fater drwy roi cyhoeddusrwydd iddo |
| Blocio, rhwystro, meddiannu a tharfu mewn ffyrdd eraill | Agored i achos sifil ac yn gynyddol debygol o cael eu hystyried o natur droseddol | Rhoi pwysau neu weithredu uniongyrchol er mwyn rhwystro gweithgarwch |
| Dinistrio eiddo | Anghyfreithlon | Rhoi diwedd ar weithgarwch penodol neu ei atal |
| Trais yn erbyn unigolion | Troseddol | Cosbi'r rhai ystyrir eu bod yn gyfrifol am weithgarwch 'anfoesol' |

## Carfanau yn dylanwadu ar y lefel wladwriaethol ac is-wladwriaethol

Er mwyn enghreifftio yn gryfach y math o bwyntiau mynediad a'r dulliau a ddefnyddir gan garfanau, rhoddir sylw mwy penodol i ddylanwadu ar y lefel wladwriaethol yn y DU ac ar y lefel ddatganoledig yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r adnodd felly yn rhoi mwy o bwyslais ar y dimensiwn Cymreig. Mae llawer o'r hyn a amlinellir am natur ymwneud carfanau â'r lefel wladwriaethol yn berthnasol bellach i'r lefel is-wladwriaethol.

Wrth drafod y cyd-destun Cymreig, rhoddir sylw i'r diwylliant gwahanol o geisio annog cyfranogaeth yn gysylltiedig â datganoli i Gymru a'r modd mae hyn wedi effeithio ar y cyfleon i garfanau pwyso ymwneud ag adrannau gweithredol ar y lefel ddatganoledig a gyda'r ddeddfwrfa. Rhaid nodi bod y sefyllfa yn wahanol iawn pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol nôl yn 1999 gan fod y grymoedd a ddatganolwyd yn fwy cyfyngedig ac nad oedd rhaniad grym clir rhwng y corff gweithredol a'r ddeddfwrfa. O'r herwydd, roedd mwy o bwyslais ar ddylanwadu ar y Cynulliad yn ei gyfanrwydd ac roedd llawer mwy o bwyslais ar y pwyllgorau fel mecanwaith llunio polisi. Dros amser, mae'r sefyllfa wedi newid a model seneddol cliriach sy'n wynebu carfanau pwyso wrth iddynt fanteisio ar fannau mynediad i'r cyrff datganoledig. Mae'r drafodaeth yn tynnu sylw at y modd mae cyrff lefel y Deyrnas Unedig wedi ceisio addasu i'r cyfleon i geisio dylanwadu ar lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a'r effeithiau hyn ar garfanau pwyso. Dylid nodi hefyd fod rhai carfanau pwyso penodol Cymreig nad ydynt yn adain o gorff ehangach ar draws y Deyrnas Unedig (e.e. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) neu Undeb Amaethwyr Cymru (yr FUW). Mantais y cyrff hyn yw eu bod yn hen gyfarwydd gyda datblygu polisïau penodol i Gymru ac mae datganoli gwleidyddol wedi arwain at annog y cyrff hyn i ddatblygu eu capasiti i fanteisio ar y pwyntiau mynediad posibl i gael dylanwad, a gallant wynebu heriau capasiti yn ystod y broses.

Er gwaetha'r cyfleon posib i garfanau geisio cael dylanwad, mae'r drafodaeth hefyd yn tynnu sylw at y math o heriau mae rhai carfanau pwyso yn eu hwynebu wrth geisio dylanwadu. Ar un llaw, mae hyn yr un mor berthnasol i gyd-destun lefel wladwriaethol y Deyrnas Unedig yn sgil y gwahaniaethau mewn capasiti ac adnoddau rhwng carfanau gwahanol.

**Llwyddiant carfanau pwyso**
Trafodaeth fer a geir o ddulliau o asesu llwyddiant carfanau pwyso a thynnir sylw at y math o heriau mewn asesu'r llwyddiannau hyn. Amlinellir prif elfennau teipoleg a gynigiwyd gan Wyn Grant i asesu'r ffactorau sy'n effeithio ar eu llwyddiant.

**Carfanau a Democratiaeth**
Mae'r drafodaeth ynghylch a yw carfanau pwyso yn atgyfnerthu neu'n gwanhau democratiaeth yn bwnc reit fawr hefyd. O'r herwydd, canolbwyntir yn y wybodaeth graidd ar drafod y mater o oblygiadau'r twf mewn cwmnïau lobïo proffesiynol. Trafodir cyd-destun llywodraeth yn San Steffan a'r drafodaeth ar lobïo yng nghyd-destun y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir rhoi sylw pellach i'r elfen hon. Mae trafodaeth bellach ar y berthynas rhwng carfanau a democratiaeth yn un o'r ymarferion yn y llawlyfr gwaith.

## Ymarferion yn y llawlyfr gwaith

Bwriad yr ymarferion yw cynnig ffyrdd o ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r materion a drafodir yn yr Adnodd. Canolbwyntir i ddechrau ar ymarferion sy'n cysylltu dulliau dylanwadu gyda'r categoreiddio rhwng carfanau mewnol ac allanol. Rhoddir cyfle wedyn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r pwyntiau mynediad i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd/ Cynulliad gan gysylltu hyn gydag annog disgyblion i werthuso'r math o ffactorau mae'n rhaid i garfanau pwyso eu hystyried wrth iddynt geisio cael dylanwad. Cynigir ymarfer sy'n gofyn am ymchwilio i fathau gwahanol o garfanau ac ystyried yr amodau sy'n dylanwadu ar lwyddiant neu aflwyddiant y carfanau yn eu gwahanol feysydd gweithgarwch. Mae dau ymarferiad arall yn ymwneud gyda deall y berthynas rhwng carfanau pwyso a democratiaeth. I orffen, cynigir cwestiynau traethawd posibl sy'n ymwneud gyda llwyddiant carfanau a'u cyfraniad i ddemocratiaeth.

Ymysg cwestiynau eraill y gellid ei gofyn i'r dosbarth mae-

: Ym mha ffordd y gellid dadlau bod y carfanau pwyso yn tanseilio democratiaeth?

: Beth yw plwraliaeth?

: Ym mha ffordd y mae carfanau pwyso yn gallu cynorthwyo lleiafrifoedd?

## ARGYMHELLION DARLLEN PELLACH

### Adnoddau yn Gymraeg

Adroddiad Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad ar Lobïo, Ionawr 2018

http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s70855/Adroddiad%20y%20Pwyllgor%20-%2011%20Ionawr%202018.pdf

Gwefan Ymchwiliad y Pwyllgor (sy'n cynnwys cyswllt i'r gwahanol dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor): http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15831

Lydia Jones & Gwilym Evans (2013) Llyfr UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (Aberystwyth: @ebol) Pennod 7: Byd y carfanau pwyso; Pennod 8: Ymddygiad carfanau pwyso.

### Adnoddau yn Saesneg

Gwefan Senedd San Steffan, Lobbying Parliament: https://www.parliament.uk/get-involved/contact-an-mp-or-lord/lobbying-parliament/

Darn gan Paul Cairney ar swyddogaeth carfanau pwyso a chwestiynau am garfanau pwyso yng nghyd-destun llywodraeth ddatganoledig yr Alban: https://paulcairney.wordpress.com/2015/10/02/pluralist-democracy-and-the-scottish-policy-style-the-role-of-pressure-participants-such-as-interest-groups-polu9sp/